**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Mawrth, 1af Tachwedd, 2016 am 2.00**

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd Sir R. Edwards (Cadeirydd)
Cynghorydd Sir P. Clarke (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr Sir: D. Dovey, D. Edwards, R. Harris, B. Hayward, J. Higginson, P. Murphy, M. Powell, B. Strong, A. Webb and A. Wintle

Mynychodd y Cynghorwyr Sir P. Farley a V. Smith y cyfarfod drwy wahoddiad y Cadeirydd.

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Mark Hand | Head of Planning, Housing and Place-Shaping |
| Philip Thomas | Development Services Manager |
| Shirley Wiggam | Senior Strategy and Policy Officer |
| Robert Tranter | Head of Legal Services & Monitoring Officer |
| Richard Williams | Democratic Services Officer |

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorwyr Sir: D. Blakebrough, D. Evans and P. Watts

1. **<u>Datganiadau o Fuddiant</u>**

Datganodd y Cynghorydd Sir A. M. Wintle ddiddordeb personol heb fod yn rhagfarnu yn ymwneud â Chod Ymddygiad Aelodau yng nghyswllt cais DC/2016/00771, gan ei fod yn Gyfarwyddwr Parc Sglefrio Allfforddd Trefynwy (MOSP).

2. **<u>Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol</u>**

Cafodd Cofnodion Pwyllgor Cynllunio dyddiedig 4 Hydref 2016 eu cadarnhau a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

3. **<u>CAIS DC/2015/01424 - NEWID DEFNYDD TIR I DDARPARU SAFLE CARAFANAU SIPSI YN CYNNWYS SAITH CARAFAN BRESWYL A DATBLYGIAD CYSYLLTIEDIG TIR GYFERBYN Â FFERM MAERDY UCHAF, LLANGYFIW.</u>**

Ystyriwyd y cais a gohebiaeth hwyr a gyflwynwyd ar gyfer ei wrthod am y tri rheswm a amlinellir yn yr adroddiad.

Mynychodd y Cynghorydd D.K. Pollitt, Cadeirydd Cyngor Cymuned Llantrisant Fawr y cyfarfod ar wahoddiad y Cadeirydd ac amlinellodd y pwyntiau dilynol ar ran y cyngor cymuned:

- Nid yw'r cais yn cydymffurfio gyda'r Cynllun Datblygu Lleol.

- Bu'r safle yn destun apêl cynllunio yn 2011. Caniataodd yr Arolygiaeth Cynllunio'r apêl ar sail anghenion fel y gallai'r ymgeisydd fyw gyda'i theulu agosaf. Gweithredwyd amodau llym am nifer (2) a'r math o garafanau, union leoliad y carafanau hynny, enwau

defnyddwyr pob carafán, nifer y cerbydau a ganiateir ar y safle (2) a maint y gorchudd daear a ganiateir.

- Ni chydymffurfiwyd ag unrhyw un o'r amodau hyn ers y dyfarniad hwnnw. Nid yw'r defnyddwyr a enwyd erioed wedi byw ar y safle a bu'r safle yn wag gan fwyaf ers hynny. Mae hyn yn diddymu'r angen am y safle.

- Yn syth ar ôl y dyfarniad gosodwyd gwasanaethau ar gyfer tair, nid dwy garafán.

- Nid yw'r carafanau ar y safle naill y math a ganiateir nac wedi eu lleoli fel oedd angen.

- Cafodd y safle ei orchuddio i ddechrau gyda chraidd caled. Cafodd hyn ei symud yn dilyn gweithredu gorfodaeth ond gadawyd tomen o graidd caled ar un gornel o'r safle.

- Yn ystod yr haf roedd pum carafán a saith cerbyd ar y safle.

- Gwnaed peth gwaith ffensio ac roedd angen i Swyddog Gorfodaeth y Cyngor Sir fynd i mewn i'r safle a sicrhau bod y carafanau'n cael eu symud.

- Oherwydd yr hanes, mae'r cyngor cymuned yn ystyried na ellir bod yn sicr sut y bydd datblygiad y safle yn mynd rhagddo pe cymeradwyid y cais.

- Mae mynediad i'r safle ar hyd lon sengl hir a chul heb unrhyw leoedd pasio. Mae'r lôn hefyd yn agored i lifogydd.

- Gan nad oes unrhyw wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i'r safle, bydd y cynnydd mewn traffig o hyd at 14 cerbyd ynghyd â faniau teithio achlysurol yn rhoi pwysau diangen ar lif traffig ac yn groes i Bolisi NV1.

- Mae ymgeision blaenorol i symud carafanau i'r safle wedi arwain at ddifrod i wrychoedd.

- Mae'r safle mewn tir amaethyddol agored ac mae'r cais yn groes i Bolisïau LC1, LC5 a S1 y Cynllun Datblygu Lleol.

- Bydd y datblygiad yn cael effaith niweidiol ar y tirlun lleol a gellir ei weld o'r A449 a'r ffordd ymuno, yn arbennig yn yr hydref a'r gaeaf.

- Bydd y datblygiad arfaethedig yn achosi niwed sylweddol i gymeriad lleol yr ardal. Mae mewn safle anghydnaws ac nid yw'n cyd-fynd â'r ardal leol.

- Mae'r cyngor cymuned yn gryf yn erbyn y cais cynllunio.

Amlinellodd yr ymgeisydd, Mr. T. Lee, oedd yn mynychu'r cyfarfod ar wahoddiad y Cadeirydd, y pwyntiau dilynol:

- Bwriad y cais cynllunio yw i'r ymgeisydd a'i deulu agosaf fyw ar y safle.

- Mae'r ymgeisydd yn ystyried y dylai'r cais gael ei gymeradwyo, gan ei fod yn cydymffurfio gyda'r Polisi Safleoedd Sipsiwn a fabwysiadwyd dan gynllun datblygu H8.

- Mae Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr 2015 yn sefydlu angen am o leiaf wyth o leiniau preswyl parhaol ychwanegol erbyn 2021. Byddai'r cais hwn yn darparu 40% o'r angen hwnnw.

- Mae'r safle yn lleoliad addas a chynaliadwy ar gyfer Safle Sipsiwn. Nid yw'r swyddog achos wedi cyrraedd y rhan berthnasol o'r apêl flaenorol lle canfu'r Arolygydd bod lleoliad y safle wedi ei gytuno. Mae paragraff y 26 y cylchlythyr yn hyrwyddo dull pragmatig at deithiau mewn ceir yng nghyswllt defnyddiau safleoedd sipsiwn.

- Mewn cyd-destun gwledig, nid yw'r safle yn neilltuol o anghysbell o'r ystod eang o wasanaethau sy'n darparu ar gyfer tref Brynbuga, sydd tua dau gilomedr o'r safle ac mae ysgol gynradd o fewn y dref.

- Mae safle bws o fewn un cilomedr o'r safle a fyddai'n rhoi gwasanaeth i'r ysgol uwchradd newydd yn Nhrefynwy.

- Nid yw'r Awdurdod Priffyrdd wedi gwrthwynebu'r cais ac nid oes risg llifogydd neu wrthwynebiadau eraill.

- Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud ag amwynder preswyl, gan fod y safle ar wahân i'r preswylwyr agosaf.

- Caiff y cais ei gefnogi gan gynllun gwella tirlun a ddiogelir gan TDA sy'n darparu'r asesiad gweledol tirlun ar gyfer y Cynllun Datblygu Unedol.

- Ers yr apêl flaenorol, ni chaniatawyd unrhyw safle pellach sy'n dangos methiant y cynllun datblygu, gan fod y cylchlythyr yn disgwyl i anghenion gael eu cyflawni drwy'r cynllun datblygu drwy ddyrannu'r tir ar gyfer y safle ac yna ar gyfer ceisiadau unigol, megis y cais hwn.

- Ni ddyrannwyd unrhyw dir er i'r GTAA sefydlu fod angen. Dylid rhoi pwysau sylweddol ar y mater hwn.

- Yn ychwanegol at yr angen, mae angen i'r ymgeisydd a'i deulu gael eu huno unwaith eto ar yr un safle oherwydd ei fod wedi methu byw yn y safle yn Drenewydd Gellifarch lle cafodd ei fagu. Ers iddo ddod yn oedolyn, y polisi ar y safle yw y gall un aelwyd wneud cais am lain. Dim ond nifer o garafanau fesul llain sydd gan Gaerdydd hefyd, felly methodd roi ei garafán ar lain ei deulu. Hoffai'r ymgeisydd gael ei deulu ei hun ac fel y prif enillydd cyflog, mae ganddo ymrwymiadau i'w deulu presennol. Mae angen i'r teulu fod gyda'i gilydd gan mai dyna eu diwylliant a thraddodiad. Bu teulu'r ymgeisydd yn deithwyr yn Sir Fynwy am genedlaethau ac mae'n ystyried y byddent yn gaffaeliad i'r gymuned.

Hysbysodd Pennaeth Cynllunio, Tai a Llunio Lle y Pwyllgor pe byddai'r Pwyllgor o blaid cymeradwyo'r cais yna y byddai'n argymell fod Aelodau'n ystyried amod ychwanegol bod enwau'r preswylwyr, nifer y carafanau ar y safle, y lleoliad, tirlunio a maint y datblygiad yn hysbys gan fod y materion hyn yn orfodadwy. Fodd bynnag, y mater y bydd angen i'r Pwyllgor ganolbwyntio arno yw os oes angen am y cais hwn. Eglurwyd nad oedd yr un o'r preswylwyr arfaethedig yn ffurfio rhan o'r angen a ddynodwyd drwy'r GTAA.

Mynegodd aelodau gydymdeimlad gyda'r ymgeisydd. Fodd bynnag, wrth fynd i ffwrdd o'r safle, daeth yr anawsterau a ddynodwyd gan y safle yn glir. Gan roi ystyriaeth i sylwadau'r Arolygydd yn yr apêl flaenorol, roedd yn glir mai dim ond ar gyfer nifer y carafanau a gytunwyd yr oedd y safle yn addas. Aiff y cais yn erbyn polisi cynllunio.

Nodwyd fod swyddogion wedi ceisio siarad gyda'r ymgeisydd ond heb gael unrhyw ymateb. Felly ni chafwyd eglurdeb llwyr am y sefyllfa. Hefyd, mae gwrthdaro rhwng sylwadau'r ymgeisydd a rheolwr safle Caerdydd.

Ar ôl ystyried adroddiad y cais a'r sylwadau a fynegwyd, cynigiodd y Cynghorydd Sir P. Murphy ac eiliodd y Cynghorydd Sir R. J. Higginson y dylid gwrthod cais DC/2015/01424 am y tri rheswm a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Ar gael ei roi i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau dilynol:

| | | |
|---|---|---|
| O blaid gwrthod | - | 13 |
| Yn erbyn gwrthod | - | 0 |
| Ymatal | - | 0 |

Cariwyd y cynnig.

Penderfynwyd gwrthod cais DC/2015/01424 am y tri rheswm a amlinellwyd yn yr adroddiad.

4. **CAIS DC/2014/01185 - CAIS MATERION A GEDWIR AR GYFER CODI SAITH ANNEDD A GWAITH CYSYLLTIEDIG. TIR GER CWRT CLEARVIEW, DRENEWYDD GELLIFARCH.**

Ystyriwyd y cais a'r ohebiaeth hwyr a argymhellwyd ar gyfer cymeradwyaeth gyda'r 12 amod a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor fod Aelod lleol Drefach Gellifarch wedi methu mynychu'r cyfarfod ond roedd wedi anfon ei ymddiheuriadau. Roedd hefyd wedi mynegi ei gefnogaeth i'r cais drwy ohebiaeth hwyr.

Wrth nodi manylion y cais, mynegodd Aelod bryder am ddyluniad gwael yr eiddo fforddiadwy sy'n fyngalo ac nid oes ganddo'r un gwaith carreg â'r tai marchnad arfaethedig. Mynegwyd consyrn hefyd fod y drws cefn yn agor o'r lolfa ac nid y gegin.

Dywedodd y Pennaeth Cynllunio, Tai a Llunio Lle y cymerwyd gofal wrth ddylunio'r byngalo fforddiadwy. Mae'r nodweddion carreg ar y lleiniau eraill lle mae neu ffenestri bae neu gyntedd. Nid yw'r nodweddion hyn yn y byngalo fforddiadwy. Mae'r cerrig croes a'r siliau ar y byngalo fforddiadwy ac nid yw'r deunyddiau'r un fath â'r tai marchnad. Nodwyd y byddai angen ychwanegu canopi cyntedd i gyflawni safonau DQR.

Yn groes i'r hyn a gynigiwyd yn adroddiad y swyddog nodwyd hefyd nad oedd angen dileu'r balconïau Juliet arfaethedig fel amod cynllunio gan na fyddent yn edrych llawer mwy dros anheddau cyfagos na ffenestri mwy confensiynol.

Ar ôl ystyried adroddiad y cais a'r sylwadau a fynegwyd, cynigiodd y Cynghorydd Sir P. Murphy ac eiliodd y Cynghorydd Sir M Powell fod cais DC/2014/01185 yn cael ei gymeradwyo gyda'r 12 amod a amlinellwyd yn yr adroddiad heblaw am amod 7 ac yn amodol ar i'r Panel Dirprwyedig gytuno ar driniaeth dyluniad, gweddlun a chydymffurfiaeth DQR y byngalo fforddiadwy.

Ar gael ei roi i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau dilynol:

| | | |
|---|---|---|
| O blaid y cynnig | - | 13 |
| Yn erbyn y cynnig | - | 0 |

Ymatal - 0

Cariwyd y cynnig.

Penderfynwyd cymeradwyo cais DC/2014/01185 gyda'r 12 amod a amlinellwyd yn yr adroddiad heblaw amod 7 ac ar yr amod bod y Panel Dirprwyedig yn cytuno ar driniaeth dylunio, gweddlun a chydymffurfiaeth DQR y byngalo fforddiadwy.

**5. CAIS DC/2013/00349 - NEWID DEFNYDD LLAWR DAEAR TŶ TAFARN I DDEFNYDD MANWERTHU A CAFFE. TROSI A NEWID LLAWR CYNTAF TŶ TAFARN PRESENNOL I FFLAT. NEWID DYLUNIAD ANHEDDAU NEWYDD ARFAETHEDIG YN Y MAES PARCIO I FFURFIO PÂR O RANDAI DEULAWR. THE BRIDGE INN, STRYD Y BONT, CAS-GWENT NP16 5EZ.**

Ystyriwyd y cais a argymhellwyd ar gyfer ei gymeradwyo gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio ar 4 Hydref 2016 gydag argymhelliad ar gyfer cymeradwyaeth. Fodd bynnag, gohiriwyd ystyriaeth o'r cais i alluogi swyddogion i gydlynu gyda'r ymgeisydd i ystyried newid y dyluniad, gan y teimlai'r Pwyllgor Cynllunio nad yw ffurf y datblygiad yn gydnaws gyda chymeriad yr ardal o amgylch. Gofynnodd aelodau am eil ail-ddylunio'n llwyr. Fodd bynnag, ystyriai'r ymgeisydd mai'r cais presennol oedd y datrysiad dylunio gorau.

Nodwyd pe byddai'r Pwyllgor Cynllunio o blaid gwrthod y cais ar sail dylunio, cynigid rheswm dros wrthod islaw:

- Ystyrir bod elfen adeilad newydd y cais o ddyluniad anghydnaws ac yn ymddangosiad anghymharus yng nghyswllt cymeriad traddodiadol a chysefin yr amgylchedd adeiledig o amgylch, a ddynodwyd fel ardal cadwraeth. Byddai'r cynnig yn methu cadw neu hybu cymeriad ac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth a byddai'n groes i Bolisi HE1 yn y Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy a fabwysiadwyd.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod y Pwyllgor yng nghyswllt Polisi TAN 15, dywedodd Pennaeth Cynllunio, Tai a Llunio Lle fod polisi cynllunio yn caniatáu i'r Pwyllgor gymeradwyo datblygiad preswyl ar Barth Llifogydd C1 os yw'n safle tir llwyd, os yw'n cyflawni cynllun adfywio neu gyflogaeth yr awdurdod lleol ac os yw canlyniadau llifogydd yn dderbyniol. Nodwyd fod swyddogion cynllunio yn fodlon fod y cais hwn yn cydymffurfio â'r polisi risg llifogydd.

Dywedodd Aelod lleol Santes Fair, oedd yn mynychu'r cyfarfod ar wahoddiad y Cadeirydd, wrth y Pwyllgor Cynllunio ei fod yn cydnabod y gwnaed gwaith ychwanegol yng nghyswllt y cais ac y rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth ddifrifol i'r mater yn y cyfarfod blaenorol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw reswm dros newid dim o'r hyn a ddywedodd yn y cyfarfod blaenorol. Ailgyflwynwyd y cais gyda pheth gwaith ychwanegol ond nid yw wedi cyflawni'r gwrthwynebiadau a ddaeth i'r cyfarfod a fynegwyd ar ran barn leol. Fodd bynnag, mae ei sylwadau a fynegwyd yn y cyfarfod blaenorol yn dal yn berthnasol.

Nododd na chafodd y dyluniad ei newid ond iddo gael ei gyflwyno'n well gyda lluniadau lliw. Felly, roedd rhai Aelodau bellach yn cytuno mai'r cais, yn ei ffurf bresennol, oedd y dyluniad gorau ar gyfer y safle.

Fodd bynnag, roedd Aelodau eraill yn dal i ystyried fod y dyluniad yn anaddas a bod materion yn ymwneud â pharcio wedi eu hanwybyddu ac ystyrient y dylai'r cais gael ei wrthod am y rheswm a amlinellir yn yr adroddiad.

Ar ôl ystyried adroddiad y cais a'r sylwadau a fynegwyd, cynigiodd y Cynghorydd Sir P. Murphy ac eiliodd y Cynghorydd Sir R. Harris fod cais DC/2013/00349 yn cael ei gymeradwyo gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

Ar gael ei roi i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau dilynol:

| | |
|---|---|
| O blaid cymeradwyo | 8 |
| Yn erbyn cymeradwyo | 5 |
| Ymatal | 0 |

Cariwyd y cynnig

Penderfynwyd cymeradwyo cais DC/2013/00349 gyda'r amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad.

6. **CAIS DC/2015/00771 - MÂN NEWID I GAIS BLAENOROL DC/2014/00412 - NEWID BOLARDAU GOLAU I OLEUADAU 4M STRYD FAWR CAE GYFERBYN Â GORSAF DÂN TREFYNWY, HEOL ROCKFIELD, TREFYNWY.**

Ystyriwyd y cais a'r ohebiaeth hwyr, a argymhellwyd ar gyfer ei gymeradwyo gyda'r 13 amod a amlinellir yn yr adroddiad.

Hysbysodd yr Aelod lleol dros Drybridge, sydd hefyd yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio, y Pwyllgor y caiff y goleuadau stryd 4m o uchder arfaethedig eu gosod mewn ardal gadwraeth ac y medrid eu gweld o Osbaston. Codwyd y bolardiau lefel isel presennol fel na fyddai'r golau o'r maes parcio yn tywynnu yn y parc sglefrio gan alluogi sglefrwyr i ddefnyddio'r parc yn hwyr yn y nos. Mynegwyd pryder y byddai dau o'r goleuadau stryd 4m o uchder arfaethedig yn tywynnu yn y parc. Mynegwyd pryder hefyd na ymgynghorwyd â Pharc Sglefrio All-ffordd Trefynwy (MOSP) yng nghyswllt y cais.

Ystyriwyd y gellid ychwanegu amod i sicrhau y caiff goleuadau stryd eu sgrinio i atal golau rhag tywynnu i'r parc sglefrio.

Ar ôl ystyried adroddiad y cais a'r sylwadau a fynegwyd, cynigiodd y Cynghorydd Sir A. Webb ac eiliodd y Cynghorydd Sir P. Murphy gymeradwyo cais DC/2016/00771 gyda'r 13 amod a amlinellir yn yr adroddiad a gydag amod ychwanegol y caiff y goleuadau stryd eu sgrinio i atal golau rhag tywynnu i'r parc sglefrio.

Ar gael ei roi i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau dilynol:

| | | |
|---|---|---|
| O blaid y cynnig | - | 12 |
| Yn erbyn y cynnig | - | 0 |
| Ymatal | - | 1 |

Cariwyd y cynnig.

Penderfynwyd cymeradwyo cais DC/2016/00771 gyda'r 13 amod a amlinellir yn yr adroddiad a gydag amod ychwanegol y caiff goleuadau stryd eu sgrinio i atal golau rhag tywynnu i'r Parc Sglefrio.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Mawrth, 1af Tachwedd, 2016 am 2.00**

7. **CAIS DC/2016/00415 - CAIS AMLINELLOL AR GYFER ADEILADU 8 ANNEDD YN CYNNWYS 5 UNED FFORDDIADWY TIR GER Y B4293 A HEOL YR EGLWYS, LLANISIEN.**

Ystyriwyd y cais a gohebiaeth hwyr, a amlinellwyd er cymeradwyaeth gyda'r amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Wrth nodi manylion y cais, gan ei fod yn gais amlinellol gyda'r holl faterion wedi eu cadw, mynegodd Aelodau eu cefnogaeth ond mynegwyd y pwyntiau dilynol:

- Roedd mynediad i'r datblygiad yn dyn ac roedd angen ei drafod i wella gwelededd y gellir ei drin ar y cam materion a gadwyd.

- Roedd dyluniad yr eiddo arfaethedig yn bwysig a gellir trafod hynny ar y cam materion a gadwyd.

- Bod Cytundeb Adran 106 yn sicrhau'r unedau tai fforddiadwy.

- Pan geir cytundeb terfynol, dylai swyddogion annog yr ymgeisydd i ddechrau adeiladu cyn gynted ag sy'n bosibl.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir Higginson ac eiliodd y Cynghorydd A. Webb fod cais DC/2016/00415 yn cael ei gymeradwyo gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad ac yn amodol ar Gytundeb Adran 106 i sicrhau'r unedau tai fforddiadwy.

Ar gael ei roi i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau dilynol:

O blaid cymeradwyo - 13
Yn erbyn cymeradwyo - 0
Ymatal - 0

Cariwyd y cynnig.

Penderfynwyd cymeradwyo cais DC/2016/00415 gyda'r amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad ac yn amodol ar Gytundeb Adran 106 i sicrhau'r unedau tai fforddiadwy.

8. **CAIS DC/2015/01591 - 10 ARWYDD HYSBYSEBU RHYDD-SEFYLL MEWN GWAHANOL LEOLIADAU**

Ystyriwyd y cais a gohebiaeth hwyr a argymhellwyd ar gyfer cymeradwyaeth gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, nodwyd y byddai'r Adran Priffyrdd yn rheoli'r cynnwys a ddangosir ar yr hysbysiadau arfaethedig.

Mynegodd rhai Aelodau bryder y byddai cymeradwyo'r cais yn arwain at i ymyl priffyrdd ddod yn flêr. Felly, byddai'n anodd i fodurwyr ddarllen arwyddion o'r fath. Byddai lluniau yn hytrach na geiriad yn opsiwn gwell. Fodd bynnag, mynegodd rhai Aelodau eu cymeradwyaeth o'r cais gan fod galw am arwyddion hysbysebu rhydd-sefyll yn yr ardal. Codid yr arwyddion ar laswellt yn ymyl y ffordd gyda blodau gwyllt o amgylch.

Felly cynigiodd y Cynghorydd Sir R.J. Higginson ac eiliodd y Cynghorydd Sir M. Powell fod cais DC/2015/01591 yn cael ei gymeradwyo gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

Ar gael eu rhoi i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau dilynol:

O blaid cymeradwyo - 11
Yn erbyn cymeradwyo - 1
Ymatal - 1

Cariwyd y cynnig.

Penderfynwyd cymeradwyo cais DC/2015/01591 gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

## 9. CAIS DC/2015/01592 - ARWYDDION RHYDDSEFYLL MEWN GWAHANOL LEOLIADAU AR HYD YR A472.

Ystyriwyd y cais a gohebiaeth hwyr, a argymhellwyd ar gyfer cymeradwyaeth gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

Dywedodd yr Aelod lleol dros Lanbadog, oedd yn mynychu'r cyfarfod ar wahoddiad y Cadeirydd, wrth y Pwyllgor nad oedd yn cefnogi'r cais ar sail diogelwch, gan fod yr A472 eisoes yn ffordd brysur ac y byddai arwyddion rhyddsefyll yn debyg o dynnu sylw modurwyr. Awgrymwyd y gellid defnyddio safleoedd bws presennol i roi hysbysiadau, a fyddai yn eu tro yn opsiwn rhatach.

Ar ôl derbyn adroddiad y cais a'r sylwadau a fynegwyd gan yr Aelod lleol, mynegodd rhai Aelodau eu cefnogaeth dros yr Aelod lleol. Fodd bynnag, mynegodd Aelodau eraill eu cefnogaeth i'r cais.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir R.J. Higginson ac eiliodd y Cynghorydd Sir M. Powell fod cais DC/2015/1592 yn cael ei gymeradwyo gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

Ar gael ei roi i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau dilynol:

O blaid cymeradwyo - 9
Yn erbyn cymeradwyo - 2
Ymatal - 1

Cariwyd y cynnig.

Penderfynwyd cymeradwyo cais DC/2015/01592 gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

## 10. CAIS DC/2015/01593 - 8 ARWYDD RHYDD-SEFYLL

Ystyriwyd y cais a gohebiaeth hwyr, a argymhellwyd ar gyfer cymeradwyaeth gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

Wrth nodi manylion y cais, cynigiodd y Cynghorydd Sir R. J. Higginson ac eiliodd y Cynghorydd Sir M. Powell fod cais DC/2015/01593 yn cael ei gymeradwyo gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

Ar gael ei roi i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau dilynol:

O blaid cymeradwyo - 10

Yn erbyn cymeradwyo - 1
Ymatal - 2

Cariwyd y cynnig.

Penderfynwyd cymeradwyo cais DC/2015/01593 gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

## 11. CAIS DC/2015/01594 - 6 ARWYDD RHYDD-SEFYLL

Ystyriwyd y cais a'r ohebiaeth hwyr, a argymhellwyd ar gyfer cymeradwyaeth gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod y cais yn cyfeirio at gais am gyfanswm o 6 arwydd rhydd-sefyll yn y mannau dilynol ar hyd yr A48 yn ymyl Cas-gwent a Chaerwent:

- Dau arwydd i'w lleoli yn y A48 ger Cylchfan Parkwall (y cyfeirir atynt fel Arwyddion 1-2).

- Un arwydd i'w leoli ar yr A48 ger Canolfan Garddio Cas-gwent (y cyfeirir ato fel Arwydd 3).

- Un arwydd i'w leoli ar Ffordd Gyswllt Dyffryn Gwy ger Cylchfan High Beech, Cas-gwent (y cyfeirir ato fel Arwydd 4).

- Dau arwydd i'w lleoli ar yr A48 yng Nghaerwent, rhwng Heol Dinham a Pound Lane (y cyfeirir atynt fel Arwyddion 5-6).

Mynegodd Aelod bryder am Arwydd 3. Byddai'n lleoliad hwn yn anaddas ar gyfer arwyddion rhydd-sefyll gan y byddai'n tynnu sylw modurwyr ar y rhan brysur yma o'r priffyrdd. Gallai hefyd annog gosod posteri anghyfreithlon yn y lleoliad.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sir P. Farley i annerch y Pwyllgor Cynllunio ar y cais, gan ei fod yn Aelod dros Gas-gwent. Mynegodd yr Aelod bryder mai'r ymgeisydd yw Adran Priffyrdd Cyngor Sir Fynwy sydd hefyd yn rhoi'r cyngor technegol ar gyfer y cais. Ni chafodd y broses hon ei herio. Ni chafodd arolygon a gynhaliwyd gan yr Adran Priffyrdd eu gwneud ar gael ar gyfer dibenion craffu. Mae Cyngor y Dref a phreswylwyr lleol hefyd wedi ystyried sylwadau ar y cais. Mynegwyd pryder nad yw'r Awdurdod wedi cymryd sylw o'r farn a fynegwyd yn erbyn y cais.

Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Cynllunio, Tai a Llunio Lle y Pwyllgor y daeth y cais gan yr Awdurdod Priffyrdd ond ei fod yn dîm gwahanol i'r tîm sy'n rhoi sylwadau ar geisiadau cynllunio. Felly, mae swyddogion Cynllunio wedi edrych ar y cyngor a gafwyd. Mae'r archwiliadau ar gael i'r cyhoedd eu gweld ar wefan y Cyngor Sir.

Nodwyd y byddai'r Adran Priffyrdd yn rheoli cynnwys yr arwyddion.

Roedd Aelod lleol Drenewydd Gellifarch wedi nodi ei gefnogaeth i'r cais drwy ohebiaeth hwyr.

Mynegodd Aelod lleol Caerwent, sydd hefyd yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio, ei bryder fod arwyddion 5-6 yn cael eu lleoli ar lain ganol yr A48 ac ystyriai y dylent gael eu tynnu o'r cais ar sail diogelwch.

Ar ôl ystyried y cais a'r sylwadau a fynegwyd, cynigiodd y Cynghorydd Sir D. Dovey ac eiliodd y Cynghorydd Sir A. Webb fod Arwyddion 1,2 a 3 cais DC/2015/01594 yn cael eu cymeradwyo gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

Ar gael ei roi i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau dilynol:

| | |
|---|---|
| O blaid cymeradwyo | 13 |
| Yn erbyn cymeradwyo | 0 |
| Ymatal | 0 |

Cariwyd y cynnig.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir R. Harris ac eiliodd y Cynghorydd Sir R.J. Higginson fod Arwydd 4 cais DC/2015/2014 yn cael ei gymeradwyo gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

Ar gael ei roi i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau dilynol:

| | |
|---|---|
| O blaid cymeradwyo | 7 |
| Yn erbyn cymeradwyo | 5 |
| Ymatal | 1 |

Cariwyd y cynnig.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir P. Murphy ac eiliodd y Cynghorydd Sir R.J. Higginson fod Arwyddion 5 a 6 o gais DC/2015/01594 yn cael ei wrthod ar sail amwynder a diogelwch priffordd.

Ar gael ei roi i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau dilynol:

| | |
|---|---|
| O blaid gwrthod | 10 |
| O blaid cymeradwyo | 0 |
| Ymatal | 3 |

Cariwyd y cynnig.

Felly penderfynwyd:

(i) Cymeradwyo Arwyddion 1, 2 a 3 cais DC/2015/01594 gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad;

(ii) Cymeradwyo Arwydd 4 cais DC/2015/01594 gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad;

(iii) Gwrthod Arwyddion 5 a 6 cais DC/2015/01594 ar sail amwynder a diogelwch priffyrdd.

**12. <u>Pwll-y-Cath, Newchurch, Cas-gwent.</u>**

Derbyniwyd adroddiad yr Arolygiaeth Cynllunio yn ymwneud â phenderfyniad apêl yn dilyn ymweliad safle a wnaed ar 23 Awst 2016. Safle: Pwll-y-Cath, Newchurch, Cas-gwent, NP16 6DJ.

Caniatawyd yr apêl a rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer dymchwel yr annedd bresennol a chodi annedd newydd yn ei lle gyda mynediad cysylltiedig, libart a gwaith tirlunio ym Mhwll-y-cath, Newchurch, Cas-gwent, NP16 6DJ yn unol ag amodau'r cais, cyfeirnod DE/2014/01489, dyddiedig 28 Tachwedd 2014, a'r cynlluniau diwygiedig a gyflwynwyd gydag ef, gyda'r amodau.

**13. The White House, Llanfair Cilgedin.**

Derbyniwyd adroddiad yr Arolygiaeth Cynllunio yn ymwneud â phenderfyniad apêl yn dilyn ymweliad safle a wnaed ar 23 Awst 2016. Safle: White House Farm, Llanfair Cilgedin, Y Fenni, NP7 9BB.

Gwrthodwyd yr Apêl.

**14. Monahawk Barn, Hazeldene, Comin Llanfihangel Troddi.**

Nododd y Pwyllgor y cafodd yr apêl ei thynnu'n ôl.

**15. Apeliadau a dderbyniwyd - 21 Medi, 2016 i 20 Hydref, 2016.**

Nodwyd yr apeliadau a dderbyniwyd.

**Daeth y cyfarfod i ben am 16:40.**